# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw*
# *Harbour Consultative Committee*

***16 Mawrth / March 2010***

***Adroddiad yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig***

***1 – <u>Ffioedd a Thaliadau</u>***

***1.1*** Mae’r ffioedd a’r taliadau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf 2010/11 wedi eu hanfon er cymeradwyaeth at y Swyddogion Statudol ac i’r Arweinydd Portffolio. Disgwylir y bydd yr Arweinydd Portffolio wedi cadarnhau’r ffioedd erbyn diwedd mis Mawrth. Er mwyn sicrhau fod ein cleientiaid yn gwybod am y taliadau a godir, mae'r Uned Forwrol wedi anfon copi o'r ffioedd a'r taliadau drafft i'r holl gleientiaid.

***1.2*** Mae copi o’r ffioedd a’r taliadau sy’n ymwneud â harbwr Abermaw ac Aberdyfi yn atodol. Bydd yr Aelodau yn sylwi mai’r argymhelliad yw peidio codi’r tâl ar drigolion sy’n byw yng Ngwynedd yn barhaol yn 2010, tra bod y ffioedd a’r taliadau i’r rhai sy’n byw y tu allan i Wynedd yn cynyddu o **1%**. Yn anffodus, bydd ailgyflwyno TAW ar 17.5% ar y 1af Ionawr 2010 yn achosi cynnydd bach yn y costau i’r holl ddefnyddwyr ond ni fydd hyn yn effeithio ar yr incwm a gynhyrchir yn yr harbwr.

***1.3*** Rhagwelir bod y cynnydd mewn chwyddiant i bob harbwr yng Ngwynedd am 2010/11 yn negyddol ar -1.05% sydd wedi ei seilio ar fod y Cynnydd Cyflog nesaf yn 1%. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad bach yn nharged incwm cyffredinol yr Harbwr o £2,600 yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd yr Aelodau yn ymwybodol nad yw’r targed incwm yn Abermaw a hefyd yn Aberdyfi wedi cyrraedd y targed gofynnol ers nifer o flynyddoedd ac mewn amgylchiadau o’r fath disgwylir y bydd angen cymryd camau pellach i sicrhau fod y gwariant cyffredinol a’r targedau incwm yn cyrraedd eu targedau heb beryglu safonau a diogelwch.

***1.4*** Nid yw’r ffioedd a’r taliadau sy’n ymwneud â lansio a chofrestru Cychod Pŵer a Cherbydau Dŵr Personol wedi cynyddu yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae copi o’r ffioedd a’r taliadau i lansio a chofrestru Cychod Pŵer yn atodol ac mae’r ffioedd yma’n aros yr un fath.

***1.5*** Y cynnydd cyffredinol yn y targed incwm i’r Uned Forwrol am 2010/11 yw **£9,070**, sy’n cymharu gyda tharged uwch o **£51,020** yn 2009/10. Mae hyn yn cynyddu targed incwm cyffredinol yr Uned Forwrol i **£2,130,970** yn 2010/11.

***2. - <u>Cyllidebau</u>***

***2.1*** Mae’r sefyllfa ariannol yn harbwr Abermaw ac Aberdyfi yn nhrydydd chwarter y flwyddyn ariannol hyd at 31ain Rhagfyr 2009 yn atodol. Bydd yr aelodau yn nodi fod y targed incwm sy’n ymwneud â’r harbwr yn Abermaw am 2009/10 yn **£52,010** ac mai’r cyfanswm incwm a grëwyd hyd ddiwedd Rhagfyr 2009 yw **£35,409**. Mae hyn o’i gymharu gyda chasglu £32, 821 mewn incwm am yr un cyfnod y llynedd.

***2.2*** Ar y 31ain Rhagfyr 2009 roedd y diffyg mewn incwm yn Harbwr Abermaw yn **£16,601**.

Roedd y diffyg am yr un cyfnod y llynedd yn **£16,334** ac felly mae'n ymddangos bod cysondeb yn y diffyg incwm. Nid ydym yn rhagweld y gellir creu swm sylweddol o incwm yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol bresennol ac felly, disgwylir na fydd y targed incwm i harbwr Abermaw yn cael ei gyrraedd.

***2.2*** Fel a nodir o'r manylion ariannol mae'r gwariant hyd yma hefyd wedi rhagori ar y gyllideb o dan nifer o benawdau. Rhagwelir y bydd gwariant ychwanegol yn ystod mis Mawrth ac mae'r dangosyddion ariannol allweddol i'r chwarter olaf yn rhagweld gorwariant o £3,300 yng nghyllideb harbwr Aberdyfi erbyn diwedd mis Mawrth. Bydd cyfanswm y gwariant cyffredinol wedi ystyried y targed incwm a ble fo'n bosibl bydd angen gwneud arbedion ychwanegol. Mae hi'n annerbyniol i wariant fod yn uwch na'r gyllideb a ddyrannwyd gan fod yn rhaid adnabod unrhyw orwariant o gyllideb gyffredinol yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig.

***2.3*** O ystyried yr hinsawdd economaidd presennol a'r gofyn i adnabod rhagor o arbedion fe fydd 2010/11 yn flwyddyn heriol i'r Uned Forwrol ac yn arbennig i Harbwr Abermaw a Harbwr Aberdyfi ac mae'r ddau harbwr yn dangos y byddant angen cymorth ariannol ychwanegol. . Pwysleisir y bydd angen goresgyn y gorwariant ynghyd â'r diffyg mewn incwm yn enwedig o gofio am y gostyngiad cyffredinol sylweddol yn y gyllideb sydd ar gael i Gyngor Gwynedd a'r arbedion y bydd angen eu hadnabod yn y dyfodol.

***2.4*** Er mwyn cymharu, roedd y targed incwm i Aberdyfi am yr un cyfnod yn **£39,660** ac mae cyfanswm o **£31,694** wedi ei gyrraedd sy'n gadael diffyg yn Aberdyfi o **£7,966**. Mae'r cyfanswm diffyg i'r ddau harbwr ar hyn o bryd yn **£24,300**. Bydd yn rhaid delio â'r diffyg mewn incwm ynghyd â gorwariant posibl drwy ddod o hyd i arbedion pellach yn y gyllideb Forwrol gyffredinol.

## *3* ***<u>Mordwyo</u>***

*3.1* Mae'r holl gymhorthion mordwyo sy'n arwain i Harbwr Abermaw wedi aros yn eu lle yn ystod rhan gyntaf misoedd y gaeaf ac eithrio Bwi Can rhif 2. Mae'r Cymhorthydd Mordwyo uchod wedi symud ychydig tua'r gogledd a gofynnwyd i'r Darparwr Gwasanaeth Angorfeydd i gynorthwyo gyda'r gwaith brys o ailosod y Cymhorthydd Mordwyo pwysig yma. Bydd yr Harbwr Feistr yn rhoddi dadansoddiad manwl i'r aelodau o'r costau a achoswyd wrth gynnal a chadw Cymhorthion Mordwyo yn ystod misoedd y gaeaf.

***3.2*** Mae hi'n hanfodol fod unrhyw waith sydd angen ei gwblhau er mwyn cynnal a chadw cymhorthion mordwyo a leolir yn y sianel fordwyo wedi ei orffen cyn gwyliau'r Pasg. Yn ddiweddar, daethpwyd â'r mwyafrif o'r Cymhorthion Mordwyo i'r lan i'w cynnal a'u cadw. Bu staff o Borthmadog ac Aberdyfi yn helpu gyda'r gwaith yma. Bydd y Bwi Sianel Fordwyo yn dod i'r lan yn 2010/11 ac mae'r un sydd wedi ei adnewyddu wedi ei gynnal a'i gadw ac yn barod i'w osod.

***3.3*** Fel yn y blynyddoedd a fu, bydd angen adnabod arian o'r gyllideb refeniw bresennol i gwrdd â'r gost o gynnal a chadw Cymhorthion Mordwyo sy'n ddyletswydd statudol. Archwilir yr holl gymhorthion mordwyo yn flynyddol gan Dŷ'r Drindod ac fel yn y gorffennol maent wedi bod yn feirniadol o'r gwaith a diffyg safon ein Cymhorthion Mordwyo.

Hyd yma, nid oes unrhyw Hysbysiadau i Forwyr mewn grym yn harbwr Abermaw**.**

Mae lleoliad y Cymhorthion Mordwyo fel a ganlyn:-

| | | |
|---|---|---|
| Bwi Sianel Fordwyo | 52° 42.72' N | 004° 04.91' W |
| Bwi Bar | 52° 42.56' N | 004° 04.91' W |
| Bwi Can Rhif 2 | 52° 42.57' N | 004° 04.91' W |
| Bwi Can Mewnol | 52° 42.64' N | 004° 03.94' W |
| Bwi Arllwysfa | 52° 43.19' N | 004° 05.35' W |

***3.4*** Mae marciwr yr Arllwysfa sy'n dangos pellter y bibell ollwng gyda bwi yr arllwysfa garthffos yn achosi pryder. Er bod Dŵr Cymru yn ymwybodol o'r diffyg mae'r Cymhorthydd Mordwyo yn ddiffygiol.

***3.5*** Mae cyflwr cymhorthydd y Glwyd yn parhau i ddirywio ac mae ymdrechion wedi eu gwneud i sicrhau fod y glwyd yn sefyll i fyny. O ystyried y posibilrwydd y gallai'r Glwyd fod yn ansad mae hi'n debygol y bydd angen symud y cymhorthydd yn nechrau'r gwanwyn a bydd cymhorthydd dros dro yn cael ei osod yn y sianel i ddangos lleoliad y rhwystr.

***3.6*** Er na fydd Bwi Mordwyo yn dangos union leoliad y rhwystr bydd yn sicrhau fod cychod sy'n mordwyo yn y sianel yn cael eu cyfeirio i ffwrdd o'r rhwystr. Bydd angen hysbysu cychod dyfnder bas sy'n mordwyo ar draws y lan ogleddol ar ben llanw am y rhwystr a'r bwriad yw dosbarthu Hysbysiad i Forwyr yn holl barciau gwyliau'r ardal er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r rhwystr.

## ***4 - Staff***

*4.1* Fel y gŵyr yr aelodau, ac eithrio Hafan Pwllheli, cyflogir deg o staff llawn amser yn yr Uned Forwrol. Mae'r cyfanswm yn cynnwys y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a'r Swyddog Gweinyddol.

Mae nifer o swyddogion o'r Uned Forwrol yn parhau i fod ar secondiad mewn meysydd eraill o'r gwasanaeth. Yn ddiweddar, cyflwynodd Harbwr Feistr Porthmadog (ar hyn o bryd ar secondiad yn Harbwr Pwllheli) ei lythyr ymddiswyddo a bydd yn ymddeol o'i swydd ar y 31ain Mawrth 2010. Bydd ei ymddeoliad yn golled i'r gwasanaeth a byddwn yn colli ei brofiad a'i wybodaeth helaeth.

***4.2*** Mae swydd Harbwr Feistr Porthmadog wedi ei hysbysebu yn fewnol yng Nghyngor Gwynedd. Gwnaed penodiad newydd a rhagwelir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu dechrau ei ddyletswyddau ar y 1af Ebrill 2010. Er mwyn sicrhau cysondeb yn ystod y Pasg bydd angen i holl staff yr Uned Forwrol i ddangos hyblygrwydd drwy helpu harbyrau eraill pan a phryd fo angen.

***4.3*** Hysbysebwyd swydd Cymhorthydd Harbwr yn Abermaw yn ystod y tymor a ddaw a chynhaliwyd cyfweliadau ar y 4ydd o Fawrth. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau ei ddyletswyddau ar y 1af Ebrill a bydd y penodiad yn cael ei ymestyn i'r 30ain Medi 2010. Mae'r swydd yma'n destun adolygiad a bydd penderfyniad yn cael ei wneud am y posibilrwydd o ailsefydlu swydd Cymhorthydd Harbwr llawn amser yn Abermaw.

Fel y gŵyr yr aelodau bydd angen i'r Uned Forwrol ddangos fod angen y swydd drwy'r flwyddyn a bydd dadansoddiad manwl o'r gwaith a wneir yn Abermaw yn ystod y gaeaf ar

gael i'w ddarllen. Fe gofia'r aelodau fod pwyslais wedi ei roi ar yr angen i ddangos cynhyrchiant ac effeithlonrwydd wrth ymgymryd â gwaith yn yr harbwr yn ystod y gaeaf a heb hyn ni fyddai'n ddoeth ailsefydlu swydd barhaol lawn amser yn Abermaw.

Hysbysebwyd swydd Cymhorthydd Harbwr yn Aberdyfi hefyd a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei gyflogi o'r 1af Ebrill i'r 30ain Medi.

*4.2* Yn ystod prif ran tymor yr haf rhagwelir y penodir tri (uchafswm o 4) swyddog traeth i reoli Gwobr y Faner Las yn Abermaw a bydd y rhai hynny a benodwyd gobeithio yn gallu dechrau ar eu dyletswyddau yng nghanol mis Mehefin. Penodir un Swyddog Traeth yn Fairbourne a bydd ef/hi hefyd yn dechrau ar y swydd yng nghanol mis Mehefin.

## 5 – ***Gwobr Traeth***

***5.1*** Rydym yn falch iawn o gael adrodd fod yr Uned Forwrol wedi cyflwyno cais am Wobr Traeth y Faner Las ar gyfer traeth Abermaw yn 2010. Llwyddodd ansawdd y dŵr ymdrochi i gyrraedd y Safon Canllaw ac felly gellir cyflwyno cais am y Faner Las.

***5.2*** Yn atodol, mae rhestr fanwl o ganlyniadau'r prawf dŵr ymdrochi yn Abermaw yn 2009. Bydd yr aelodau hefyd yn gallu cymharu Ansawdd Dŵr Ymdrochi yn Abermaw gyda Aberdyfi a Thywyn sydd hefyd yn atodol.

## 6 - ***Cynllun pontŵn***

6.1 Yn ddiweddar, cafodd yr Uned Forwrol gynnig i ddatblygu prosiect a fyddai'n gwella ac yn datblygu mynediad a diogelwch i'r teithwyr/morwyr sy'n byrddio ac yn glanio yn Abermaw. Mae hwn yn bwnc a drafodwyd mewn cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgorau Harbwr ac roedd yr aelodau yn frwdfrydig yn eu cefnogaeth i welliant o'r fath. Mae'r cynnig yn golygu gosod pontŵn fyddai'n ymestyn o wal y cei gyferbyn â swyddfa'r harbwr am bellter o tua deg metr ar hugain. Bydd ochr orllewinol y pontŵn arfaethedig yn cyd-fynd â'r lanfa fach.

6.2 Bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r cynnig i osod pontŵn ar wal y cei a bydd angen darluniau manwl cyn y gellid edrych am unrhyw arian. Mae nifer o ffactorau fydd angen eu hystyried ac mae'r rhain yn cynnwys:-

- Cyflwr presennol wal y cei
- Trwydded FEPA
- Cais Cynllunio
- Ymgynghori gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru

6.3 Yn ystod dechrau Mawrth 2010 rydym yn gobeithio trafod y mater gyda'r peirianwyr o Uned Amddiffyn yr Arfordir Cyngor Gwynedd a gofynnir bod arolwg manwl o wal y cei yn cael ei gynnal. Bydd yr adroddiad ar gyflwr wal y cei yn hanfodol os yw'r Awdurdod i roi ystyriaeth bellach i'r cynnig am bontŵn.

6.4 Efallai y bydd angen datgymalu'r pontŵn a dod ag ef i'r lan yn ystod dechrau'r hydref a'i ailosod yn niwedd mis Ebrill. Bydd angen arian refeniw ac adnoddau ychwanegol ar gyfer trefn o'r fath.

6.6 Mae'r Harbwr Feistr wedi ymchwilio i gost pontynau ail-law a chyflwynir rhagor o wybodaeth am beth sydd ar gael a'r gost ganddo yn y cyfarfod.

**7 - *Consesiynau Traeth/Promenâd***

***7.1*** Fel arfer, mae'r Uned Forwrol yn awdurdodi nifer o gonsesiynau ar gyfer gweithredu ar y traeth yn Abermaw yn ystod tymor yr haf. Er nad ydym wedi derbyn unrhyw gais hyd yma rhagwelir y bydd cais newydd yn cael ei gyflwyno am gonsesiwn i weithredu gweithgareddau hamdden a reidiau ar gefn mul ar y traeth.

*7.2* Un o'r prif atyniadau lleol yw'r Trên Tir sy'n gweithredu ar y promenâd rhwng mis Ebrill a Medi. Yn anffodus, oherwydd bod y promenâd yn y pen gogleddol wedi cwympo yn sylweddol ni fydd y Trên Tir yn gallu gweithredu ar hyd y promenâd cyfan tan ddechrau Mai ar y cynharaf. Efallai i'r promenâd gwympo oherwydd bod lefelau'r traeth wedi gostwng. Ar hyn o bryd mae Uned Amddiffyn yr Arfordir Cyngor Gwynedd yn ymgymryd â gwaith atgyweirio.

**8 - *Pecyn Cychod Ymwelwyr***

8.1 Yng nghyfarfod blaenorol Pwyllgor Harbwr Aberdyfi rhoddwyd cynnig o flaen yr Aelodau, sef cyflwyno 'Pecyn Croeso' i gychod sy'n ymweld â'r harbwr, gan gynnwys gwybodaeth am gyfleusterau'r harbwr, mwynderau lleol, llanw, bwytai, gwasanaethau brys ac ati.

8.2 Disgwylir y bydd yr holl gychod sy'n ymweld ag Abermaw, Aberdyfi, Porthmadog o'r 1af Ebrill 2010 ymlaen yn derbyn 'Pecyn Croeso'. Mae'r cynllun hwn yn orfodol ym mhob harbwr ac mae pob Harbwr Feistr wedi cael cyfarwyddyd i sicrhau bod Pecyn Croeso cynhwysfawr o safon ar gael. Bydd yr Harbwr Feistr a'r Swyddog Morwrol - Harbyrau yn cyflwyno Pecyn Croeso Abermaw i'r aelodau yn y cyfarfod.

8.3 Bydd yr Harbwr Feistr yn darparu dadansoddiad manwl i'r aelodau ar nifer y cychod sy'n ymweld, LOA ar gyfartaledd a dosbarth y cychod ymweld sydd wedi dod i harbwr Abermaw yn 2009. Bydd rhagor o fanylion ar gael am yr incwm a grëwyd mewn taliadau harbwr o ganlyniad i'r ymweliadau . Yn ogystal, bydd yr Harbwr Feistr yn cyflwyno dadansoddiad manwl o'r incwm gaiff ei greu o lansio ym Mhwynt Penrhyn.

***9 – Gofynion Trwydded Fferi***

***9.1*** Fel a adroddwyd i'r Aelodau yng nghyfarfod y pwyllgor harbwr yn hydref 2009, cafodd yr aelodau wybod fod yr Uned Forwrol wedi cyflwyno tair Trwydded Perchennog ac wyth Trwydded Cychwr i wasanaeth fferi rhwng Abermaw a Phwynt Penrhyn yn 2009.

***9.2*** Mae gofyniad clir ac angen sicrhau fod y sail i gyflwyno Trwydded Perchennog yn glir ac nad oes unrhyw amheuaeth am nifer y teithwyr a ganiateir i'w cludo ar y cwch. Mae yna hefyd ofyniad i sicrhau bod cysondeb gyda'r offer diogelwch sydd ei angen ar fwrdd y fferi a bod yr offer diogelwch yn cael ei archwilio gan syrfëwr morwrol a'i fod yno ar gael ar y fferi bob amser a gall fod yn destun i archwiliad cyfnodol gan y Swyddog Morwrol a/neu yr Harbwr Feistr.

***9.3*** Mae’r diffiniad o ‘Dywydd Ffafriol’ wedi ei wneud yn glir a bydd angen i Gychwyr a Pherchnogion sicrhau eu bod yn deall y diffiniad yn iawn fel a nodwyd yn y cyhoeddiadau a gyflwynwyd gan yr Asiantaeth Forwrol a Gwarchodwyr y Glannau. Bydd unrhyw drwydded a gyflwynir gan yr Awdurdod yn cael ei seilio ar y paragraff a ganlyn sydd wedi ei gynnwys yng Nghod Ymarfer yr MCA i gychod masnachol:-

***‘Favourable Weather’ means wind, sea and visibility conditions which are deemed by the skipper to be safe for a small vessel to operate within the limits applied to it; or, in any other case means conditions throughout a voyage or excursion in which the effects either individually or in combination of swell, height of waves, strength of wind and visibility cause no hasard to the safety of the vessel, including handling ability.***

***In making a judgement on favourable weather, the skipper should have due regard to official weather forecasts for the service area of the vessel or to weather information for the area which may be available from the MCA or other coastal safety organisations or Harbour Authority.***

***9.4*** Mae’r cyfnod pan ellir gweithredu’r gwasanaeth fferi a chludo teithwyr wedi ei gyfyngu i oriau golau dydd yn unig. Sef - un awr cyn gwawrio ac un awr ar ôl machlud. Ni chaniateir rhedeg gwasanaeth fferi y tu allan i’r oriau hyn. Atodwyd copi o Drwydded y Perchennog a rhestr gyfredol o’r Offer Diogelwch i atgoffa pobl o beth sydd ei angen yn 2010.

***9.5*** Wrth drafod y gofynion uchod rhoddodd aelodau’r Pwyllgor gyfarwyddyd i’r Uned Forwrol i ystyried ei fod yn ofyniad fod y rhai sy’n ymgeisio am Drwydded Cychwr yr Awdurdod Lleol eisoes yn meddu ar Trwydded Meistr Cwch yr MCA. Er y byddai gofyniad o’r fath yn cryfhau cymwysterau rhai sy'n gweithredu fferi, bydd costau ychwanegol o wneud cais am Drwydded Meistr Cwch ac efallai na fydd rhai gweithredwyr sydd eisoes yn drwyddedig gan yr Awdurdod yn gallu ymgeisio oherwydd y gost a chymwysterau gofynnol eraill.

Ar hyn o bryd mae angen i ymgeiswyr sy’n cyflwyno eu cais am Drwydded Cychwr i’r Cyngor ddarparu tystiolaeth o’r isod:-

- Gwobr Lefel Dau Cwch Pŵer yr RYA gyda 12 mis o brofiad perthnasol
- Tystysgrif Cymorth Cyntaf ddilys
- Trwydded VHF
- Tystysgrif Goroesi ar y Môr

Ar hyn o bryd mae cost Trwydded Cychwr yn £35.00 y tymor ac mae’n ddilys am saith niwrnod cyn y Pasg ymlaen i’r 31ain Hydref (trwydded tymor yr haf).

***9.6*** Mae’r Drwydded Meistr Cwch newydd a gyflwynir gan yr MCA yn cael ei isrannu’n ddwy haen. Mae’r rhain yn cael eu diffinio fel Trwyddedau Haen 1 a Haen 2.

Bydd cychod sy’n gweithredu fel cychod bach i deithwyr mewn Dyfroedd wedi eu Categoreiddio, fel a ddiffinnir gan MSN 1776 angen Trwydded Meistr Cwch Haen 2. Os yw’r aelodau yn cytuno, byddai hyn yn ofyniad cyn y gellid gwneud cais am Drwydded Cychwr Awdurdod Lleol.

Cost bresennol gwneud cais am Drwydded Meistr Cwch yr MCA yw £141.00 - tâl prosesu trwydded a £22.00 arall am gyflwyno’r drwydded. Byddai cost ychwanegol i'r ymgeisydd i gael Tystysgrif Feddygol (tua £60.00) a byddai angen cwrs pellach ar Hyfforddiant Tân. Er nad ydym yn tanseilio nac yn lleihau pwysigrwydd profiad a chymwysterau gallai costau ychwanegol achosi baich ariannol ar nifer o weithredwyr bach sy'n darparu gwasanaeth yn Abermaw.

***9.7*** Cyflwynir pecyn gwybodaeth fanwl sy’n cynnwys ffurflen gais am Drwydded y Meistr Cwch a gwybodaeth berthnasol arall i’r Aelodau yn y cyfarfod. Gofynnir i’r mater yma gael ei drafod ymhellach yng nghyfarfod hydref 2010.

Yn 2010, bydd gofynion Trwydded Cychwr presennol yn parhau a bydd angen i’r ymgeisydd gyflwyno’r dystiolaeth fel a nodwyd yn adran 9.5. Mae’n ofynnol hefyd fod yr Harbwr Feistr neu swyddog penodol arall o’r Uned Forwrol yn asesu’r ymgeisydd pan fydd ar y dŵr pan fydd sgiliau morwriaeth a gwybodaeth leol yn cael eu profi.